



Neuadd Y Sir  
Y Rhadyr  
Brynbuga  
NP15 1GA

Dydd Mawrth, 25 Gorffennaf 2023

Annwyl Cyngorydd

**PENDERFYNIADIAU AELOD CABINET UNIGOL**

Hysbysir drwy hyn y caiff y penderfyniadau dilynol a wnaed gan aelod o'r cabinet eu gwneud **Dydd Mercher, 2ail Awst, 2023,**.

**AGENDA**

1. GWEITHGOR CRONFA'R EGLWYS YNG NGHYMRU

**CABINET MEMBER:** County Councillor Rachel Garrick

**AUTHOR:**

David Jarrett – Senior Accountant – Central Finance Business Support

**CONTACT DETAILS**

Tel. 01633 644657

e-mail: [davejarrett@monmouthshire.gov.uk](mailto:davejarrett@monmouthshire.gov.uk)

Yr eiddwch yn gywir,

**Paul Matthews**  
**Prif Weithredwr**

**PORTFFOLIOS CABINET**

<b>Cynghorydd Sir</b>	<b>Meysydd o Gyfrifoldeb</b>	<b>Ward</b>
Mary Ann Brocklesby	<p><b>Arweinydd</b> Swyddogion Arweiniol – Paul Matthews, Matthew Gatehouse</p> <p>Strategaeth a Chyfeiriad yr Awdurdod Cyfan Adolygu a gwerthuso perfformiad yr Awdurdod Cyfan Hyrwyddo lleoliaeth o fewn fframweithiau rhanbarthol a chenedlaethol Perthynas â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chymdeithasau llywodraeth leol Perthynas Ranbarthol â Dinas-ranbarthau a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caffael Strategol Cynhyrchu a bwyta bwyd yn lleol, gan gynnwys amaeth-goedwigaeth a garddwriaeth leol</p>	Llanelly
Paul Griffiths	<p><b>Aelod Cabinet ar gyfer Cynllunio a Datblygu Economaidd / Dirprwy Arweinydd</b> Swyddog Arweiniol – Frances O'Brien</p> <p>Strategaeth Economaidd Cynllun datblygu lleol a chynllun datblygu strategol gan gynnwys safleoedd tai strategol Cefnogi Canol Trefi gan gynnwys parcio ceir a gorfodi Rheoli Datblygu a Rheoli Adeiladu Sgiliau a Chyflogaeth Cysylltedd band eang Meysydd parcio a gorfodi sifil</p>	Castell Cas-gwent a Larkfield
Rachel Garrick	<p><b>Aelod Cabinet ar gyfer Adnoddau</b> Swyddogion Arweiniol – Peter Davies, Frances O'Brien, Matthew Phillips, Jane Rodgers</p> <p>Cyllid gan gynnwys y MTFP a'r cylch cyllideb blynyddol Budd-daliadau Technoleg ddigidol a gwybodaeth Adnoddau dynol, y gyflogres, iechyd a diogelwch Tir ac adeiladau Cynnal a chadw a rheoli eiddo Cynllunio ar gyfer argyfyngau</p>	Castell Cil-y-coed

Martyn Groucutt	<p><b>Aelod Cabinet ar gyfer Addysg</b> Swyddogion Arweiniol – Will McLean, Ian Saunders</p> <p>Addysg Blynyddoedd Cynnar Addysg statudol pob oed Anghenion dysgu ychwanegol/cynhwysiant Addysg ôl-16 ac oedolion Safonau a gwella ysgolion Dysgu cymunedol Rhaglen cymunedau cynaliadwy ar gyfer dysgu Gwasanaethau leuenctid Cludiant ysgol</p>	Lansdown
Sara Burch	<p><b>Aelod Cabinet ar gyfer Cymunedau Byw a Chynhwysol</b> Swyddogion Arweiniol – Frances O'Brien, Ian Saunders, Jane Rodgers, Matthew Gatehouse</p> <p>Digartrefedd Cyflenwi Tai Fforddiadwy a thai'r sector preifat (tai gwag, cynllun prydlesu, benthyciadau gwella cartrefi, grantiau cyfleusterau i'r anabl a thechnoleg ymaddasol) Teithio llesol a Hawliau Tramwy Canolfannau hamdden, chwarae a chwaraeon Datblygu Twristiaeth a Strategaeth Ddiwylliannol Cyfleusterau cyhoeddus Safonau masnach, iechyd yr amgylchedd, diogelu'r cyhoedd a thrwyddedu</p>	Cantref
Ian Chandler	<p><b>Aelod Cabinet ar gyfer Gofal Cymdeithasol, Diogelu a Gwasanaethau Iechyd Hygyrch</b> Swyddog Arweiniol – Jane Rodgers</p> <p>Gwasanaethau plant Maethu a mabwysiadu Gwasanaeth Troseddau leuenctid Gwasanaethau oedolion Diogelu ar draws yr Awdurdod Cyfan (plant ac oedolion) Anableddau Iechyd meddwl a lles Perthynas â darparwyr iechyd a mynediad at ddarpariaeth iechyd</p>	Parc
Catrin Maby	<p><b>Aelod Cabinet ar gyfer Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd</b> Swyddogion Arweiniol – Frances O'Brien, Matthew Gatehouse</p> <p>Datgarboneiddio Cynllunio trafndiaeth, trafndiaeth gyhoeddus, priffyrdd a fflyd CSF</p>	Drybridge

	<p>Rheoli gwastraff, gofal strydoedd, sbwriel, mannau cyhoeddus a pharciau          Palmentydd a lonydd cefn          Lliniaru, rheoli ac adfer llifogydd          Cefn gwlad, bioamrywiaeth, ac iechyd afonydd</p>	
Angela Sandles	<p><b>Aelod Cabinet ar gyfer Cydraddoldeb ac Ymgysylltu</b>          Swyddogion Arweiniol – Frances O'Brien, Matt Phillips, Matthew Gatehouse</p> <p>Anghydraddoldeb a thlodi cymunedol (iechyd, incwm, maetheg, anfantais, gwahaniaethu, ynysu ac argyfwng costau byw)          Ymgysylltu â dinasyddion a hybu democratiaeth gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau gwirfoddol          Profiad y dinesydd - hybiau cymunedol, canolfan gyswllt a gwasanaeth cwsmeriaid a chofrestryddion          Gwasanaethau Etholiadol ac adolygu'r cyfansoddiad          Cyfathrebu, cysylltiadau cyhoeddus a marchnata          Moeseg a safonau          Yr iaith Gymraeg</p>	Dwyrain Magwyr a Gwndy

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

### Amcanion y gweithiwn tuag atynt

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored.** Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch.** Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd.** Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm.** Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatrys-wyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

**Caredigrwydd** – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.